

LEWIS, GEORGE (1763-1822), gweinidog gyda'r Annibynwyr, a diwinydd

Enw: George Lewis
Dyddiad geni: 1763
Dyddiad marw: 1822
Plentyn: William Jones Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, a diwinydd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awduron: Thomas Lewis, David Jenkins

Ganwyd yn 1763 yn Coed yn ymyl Trelech, Sir Gaerfyrddin. Ymaelododd yng Nghapel y Graig, Trelech. Bu am dymor yn ysgol [John Griffiths](#), Gland r, ac yn ddiweddarach yn ysgol [David Davis](#), Castell Hywel. Derbyniwyd ef, yn 18 oed, i'r academi yng Nghaerfyrddin. Y prifathro ar y pryd oedd Robert Gentleman. Wedi cwrs o dair blynedd yn yr academi derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys Annibynnol yng Nghaernarfon, a gweinidogaethodd yn llwyddiannus yn y cylch hwn am naw mlynedd. Cyn iddo symud o'r ardal daeth i'w feddwl i ymfudo i America. Bu gohebiaeth rhyngddo a'r [Dr. Edward Williams](#), gweinidog Carr's Lane, Birmingham, ar y pryd, ond daeth hefyd alwad o'r eglwys Annibynnol yn Llanuwchllyn, a phenderfynodd aros yng Nghymru. Bu yn y maes hwn am 18 mlynedd yn weinidog ac yn arolygwr ar nifer o ysgolion teithiol yng Ngogledd Cymru. Bu llwyddiant mawr i'w waith deublyg. Gwnaeth argraff annileadwy ar fywyd yr ardal.

Yn 1812 symudodd [Jenkin Lewis](#), llywydd yr academi Annibynnol yn Wrecsam, i Fanceinion, fel pennaeth ar academi gyffelyb, a gwahoddiwyd George Lewis gan y Bwrdd Cynulleidfaoel yn Llundain i gymryd gofal yr athrofa yn Wrecsam. Cafodd ddwy alwad, o Lerpwl ac o Lanfyllin, yn 1815. Ni fynnai'r Bwrdd iddo symud yr athrofa o Gymru, ond nid oedd wrthwynebiad iddo symud o Wrecsam i Lanfyllin (1815-21). Symudodd drachefn i'r Drefnewydd (1821), ond ymhen hanner blwyddyn bu farw yno, 5 Mehefin 1822.

Fel esboniwr Ysgrythurol a diwinydd, safai George Lewis o'i ysgwyddau yn uwch na neb arall o'i gyfoeswyr. Yr oedd ei lyfrau a'i bamffledau yn ffrwyth astudiaeth fanwl o'r *Beibl*. Am gytbwysedd barn ac ymresymiad pwylllog safai ar ei ben ei hun. Ni welir yn ei lyfrau ddim o'r ormodiaith a oedd yn nodweddiadol o erthyglau dadleuol y cyfnod. Cyhoeddodd lu o bamffledau gwerthfawr ar bynciau diwinyddol a nifer o lyfrau bychain mewn geiriau syml, ac emynau unsill, at wasanaeth ysgolion Sul ac ysgolion eraill. Bwriadodd gyhoeddi ' *Esboniad ar y Testament Newydd*, ' ond ni orffennodd y gwaith. Cyhoeddodd y tair gyfrol gyntaf pan oedd yn weinidog yn Llanuwchllyn (1802), a'r bedwaredd pan oedd yn llywydd yr academi yn Wrecsam (1815). Cyhoeddwyd y gweddill - sef tair cyfrol - ar ôl ei farwolaeth gan [Edward Davies](#), ei gyd-athro a'i fab-yng-nghyfraith; mwy na thebyg mai [Edward Davies](#) a ysgrifennodd yr esboniad ar Lyfr Datguddiad yn llwyr. Ond prif waith George Lewis oedd *Drych Ysgrythyrol neu Gorph o ddifinyddiaeth yn cynnwys eglurhad a phrawf o amrywiol ganghennau yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb*, 1796. Esboniwr beiblaidd, diwinydd, ac athro oedd George Lewis. Nid oedd fel pregethwr yn yr un dosbarth â [John Elias](#) a [Christmas Evans](#) a [Williams o'r Wern](#). Ni feddai huodledd y cyntaf na dychymyg yr ail na chyfaredd yr olaf. Ond bu'r *Drych Ysgrythyrol* yn werslyfr mewn colegau diwinyddol hyd ddiwedd y 19eg ganrif.

yr iddo (mab i'w fab ieuengaf, William Jones Lewis, meddyg) oedd Samuel, Savage Lewis (1836 - 1891), ysgolhaig clasurol (gweler *D.N.B.*).

Awduron

Y Parchedig **Thomas Lewis**, (1868 - 1953)

Dr **David Jenkins**, (1912 - 2002)

Ffynonellau

Y Cofiadur, 1934, 1-32

Oxford Dictionary of National Biography

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [George Lewis](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [68801387](#)

Wikidata: [Q13128611](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

